# ADRODDIAD PROSIECT 3: Rhag - Maw 2024

SIARC

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government | ON THE EDGE

## Uchafbwyntiau





Enillodd Prosiect SIARC wobr Prosiect y Flwyddyn Cymru yng Ngwobrau’r Loteri Genedlaethol. Cyflwynodd y naturiaethwr a'r cyflwynydd teledu bywyd gwyllt, Iolo Williams, y wobr i'r tîm ym Mhlas Heli, Pwllheli ar 12 Rhagfyr.





Rhoddodd Prosiect SIARC gyflwyniad yng Nghynhadledd Tystiolaeth Forol Cymru, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor. Rhoddodd Jake a Hannah ddiweddariad ar waith maes a chanlyniadau BRUVS, a throsolwg o'r gwaith EDI. Mynychodd dros 80 o gynrychiolwyr y gynhadledd dros y 3 diwrnod.

## Partneriaethau Pysgotwyr

- Datblygiad parhaus interniaeth pysgotwyr ifanc.
- Mae'r cytundeb data a'r strwythur trwyddedu wedi'u diweddaru gydag adborth gan ACSA a WFA.

## Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

- Swyddog cymunedol EDI yn parhau i ddatblygu rhwydwaith EDI ar gyfer y prosiect a nodi cyfleoedd hyfforddi.
- Datblygiad parhaus yr Adolygiad EDI, a Chynllun Gweithredu EDI (dogfen sy'n edrych at y dyfodol ac yn manylu ar nodau a dull gweithredu tan 2026)

## Systemau Fideo Tanddwr o Bell ag Abwyd (BRUVS) ac Instant Wild

- Dadansoddwyd data o 58 o’r arolygon BRUVS yn 2023 o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Yn y ffilmiau, nodwyd 4 rhywogaeth o siarcod a morgathod, ynghyd ag 20 rhywogaeth ychwanegol o bysgod.

## Ymgysylltu ag Ysgolion

- Mae gweithdai hyfforddi ar gyfer argraffu 3D, sesiynau cwrdd â'r gwyddonydd a sesiynau creu arddangosfeydd wedi'u cwblhau gyda 3 o’r ysgolion yn Sir Gaerfyrddin sy’n rhan o'r rhaglen allgymorth i ysgolion.

## Dinasyddion-wyddonwyr

- Cymerodd 110 o bobl ran mewn 6 digwyddiad hel casys wyau.
- Cwblhawyd methodoleg seiliedig ar Ymdrech y Great Eggcase Hunt. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau arolygu mewn 4 safle, fel man cychwyn ar gyfer monitro parhaus.

## Dadansoddi

- Er mwyn cefnogi datblygiad gweithgareddau dileu rhwystrau mewn cymunedau, mae darn ymchwil cymdeithasol wedi dechrau deall demograffeg ein cynulleidfaoedd yn ein hardaloedd o ddiddordeb yn well.

## Ymgysylltiad Ehangach

- Yn dilyn y cyhoeddiad bod Prosiect SIARC wedi ennill Prosiect y Flwyddyn Loteri Genedlaethol Cymru, cyrhaeddodd y prosiect dros 48 miliwn o bobl yn y DU ar draws y cyfryngau darlledu, ar-lein a phrint.
- Ym mis Ionawr, darlledwyd eitem, a ffilmiwyd gyda'r cyflwynydd Lizzie Daly, am arolygon BRUVS ac Instant Wild ar The One Show ar y BBC. Gwelodd Instant Wild gynnydd o 186% mewn traffig ar y wefan ar y diwrnod y cafodd ei darlledu.

## Grŵp Ymchwil

- Dim diweddariadau

## Digwyddiadau dyrannu

- Cafodd dau gi glas eu dyrannu gyda thîm CSIP a'r milfeddygon yn ZSL. Roedd yn gyfle i roi hyfforddiant cymhwysedd tagio ar gyfer trwydded y Swyddfa Gartref, sy'n ofynnol ar gyfer arolygon tagio yn y dyfodol.

## Rheoli'r Prosiect

- Llwyddodd dau gais am gyllid i gael cyllid cyfatebol ar gyfer gweithgareddau presennol Prosiect SIARC yn 2024 (On the Edge a Sefydliad Moondance)

| Dibenion Cymeradwy (NNF) | Cynnydd |
|---|---|
| PARTNERIAETH PYSGOTWYR - Cyd-gynllunio Prosiect Siarc gyda physgotwyr a'u cymdeithasau neu glybiau, trwy berthnasoedd gwaith cryfach a mwy amrywiol. | |
| DELIO Â BYLCHAU DATA - Llenwi bylchau data â blaenoriaeth ar sut mae elasmobranciaid yn defnyddio nodweddion gwarchodedig mewn dwy ACA; defnyddio data yng nghyngor a phenderfyniadau CNC, mewn cydweithrediad agos â physgotwyr. | |
| TEGWCH, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT - Dealltwriaeth o safbwyntiau amrywiol a ddefnyddir i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad a chyflawni mwy o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes cadwraeth forol yng Nghymru. | |
| CYNNWYS CYMUNEDAU - Mynediad demograffig ehangach i'r amgylchedd morol yng Nghymru gan ddefnyddio rhith-realiti, gweithgareddau GEH ac Instant Wild | |
| YSBRYDOLI'R GENHEDLAETH NESAF - Mae plant ysgol o gefndiroedd amrywiol yn cyflawni deilliannau dysgu ar gynaliadwyedd a'r byd naturiol ac yn dangos hyder mewn technolegau digidol. | |
| ARDDANGOS AMGYLCHEDD MOROL CYMRU - Mae mwy o amrywiaeth o gymunedau yng Nghymru yn dysgu am yr amgylchedd morol, gan ddefnyddio elasmobranciaid fel y canolbwynt mewn cyfathrebu dwyieithog. | |